# Y DINESYDD

*PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH* | MEHEFIN 1976 | RHIF 31




*Côr Cerdd Dant Aelwyd Caerdydd (arweinydd: Nan Jones) wedi eu gorchest yng Ngŵyl Geltaidd Cill Airne. Enillsant y cwpan yn eu dosbarth — a chwpan arall am y côr gorau yn yr Ŵyl (Adroddiad, tud 7).*

## Y Barri'n dechrau codi stêm!

**Gair byr am rai o'r achlysuron arbennig a drefnwyd hyd yn hyn i godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri. Mae rhai ohonynt yn wreiddiol dros ben, ac mae'n amlwg fod pwyllgorau Steddfod y Barri yn bwriadu i ni gael Hydref a gaeaf difyr iawn eleni — gan gyfrannu llawer at goffrau'r Steddfod yn y broses.**

Y mis hwn — o'r 17eg i'r 19eg — bydd Merched y Wawr yn rhedeg siop ail law am dridiau yn hen siop Lipton's, Bari Doc (sy'n rhan o siopiau Dan Evans bellach). Nos Fercher, Gorffennaf 31ain bydd Cerddorfa Ieunctid Cymru yn rhoi cyngerdd yng Ngholeg y Barri — a'r elw i gyd yn mynd i Eisteddfod yr Urdd.

Dylai nos Wener, Medi'r 10fed fod yn noson ddifyr dros ben: fe'n gwahoddir i ddod am fordaith ar Fôr Hafren ar un o agerlongau cwmni Campbell, yng nghwmni cannoedd o Gymry eraill! Bydd y llong yn gadael pier Penarth am 8.15p.m. ac yn dychwelyd yno ychydig wedi canol nos. Fe fydd Bar ar y llong, a cherddoriaeth Band yr Icon Jazzmen yn chwarae i ddod â chyffyrddiad o'r Mississippi i lannau Hafren! Bargen, ddwedwn i am £1.75 y tocyn.

Noson arbennig ac anghyffredin arall (erbyn heddiw, o leiaf) fydd Noson y Fedel Wenith a gynhelir yn Atoty'r Neuadd Goffa nos Wener, Medi 24ain. Ceir bwyd a diod, canu a dawnsio gwerin a phob math o ddifyrrwch — roedd deryn bach yn dweud wrthyf y bydd disgwyl i bawb wisgo mygydau y noson honno! Cyfle am dipyn o hwyl a sbri! Am wybodaeth bellach a thocynnau, cysyllter â Mrs Rachel Williams, Ysgol Gymraeg Sant Ffransis, Y Barri.

I'ch atgoffa chi, cyn cloi: y cyfeiriad ar gyfer pob cyfraniad i gronfa Eisteddfod yr Urdd yw: Mr Desmond Perkins, Banc y Midland, 33 Holton Road, Y Barri. Mae'n rhaid codi £60,000 erbyn 1977 — felly, peidiwch ag oedi, cyfrannwch nawr. Llawer o ddiolch.

## ANHAWSTER COFRESTRU

Ar ôl agor Cylch Meithrin newydd y Sblot ym mis Ionawr, trist yw gorfod adrodd fod y cylch yn cael cryn anhawster ar hyn o bryd i gofrestru fel ysgol feithrin. Oherwydd hynny mae'r ysgol yn colli rhai manteision — megis llaeth yn rhad ac am ddim i'r plant.

Mae swyddogion yr Adran Wasanaethau Cymdeithasol wedi ymweld â'r ysgol ddwywaith i arolygu'r cyfleusterau, ond os mai rhyw ddiffyg yn y rhain sy'n gyfrifol am yr oedi, ni hysbyswyd yr ysgol o'r ffaith er bod rhai misoedd wedi mynd heibio.

Awgrymwyd wrth ohebydd *Y Dinesydd* mai un rheswm posibl dros yr oedi yw'r ffaith bod y Sblot bellach yn ardal or-freintiedig (!) o safbwynt nifer yr ysgolion meithrin yno, a bod yr awdurdodau yn ceisio lleihau'r nifer a chanoli'r plant mewn unedau mwy. Os felly, mae'n hen bryd hysbysu'r awdurdodau priodol yn awr nad cylch meithrin cyffredin yw'r ysgol fach hon, ond y cyfle cyntaf a roddwyd i rieni'r rhan hon o Gaerdydd i sicrhau addysg Gymraeg i'w plant, a'i bod felly yn cynnig gwasanaeth hollbwysig na all unrhyw ysgol feithrin arall yn y cylch ei gynnig.

GOHEBYDD ARBENNIG



*Emyr Lewis, bardd y Gadair yn Eisteddfod Godre'r Garth ym mis Mai. Cyhoeddir ei awdl fuddugol ar dud. 2.*

# cornel y beirdd

Braint yw cael cyhoeddi awdl Fuddugol Eisteddfod Godre'r Garth gan Emyr Lewis, bardd ifanc o Gaerdydd.

## *LLAN*

*Â chân offeiriad cychwyn offeren*
*Yn hwyr heno yn llannerch yr onnen;*
*Y findlos oes a'i hawen — hyfryd*
*Yn weddi i gyd yn hedd y goeden.*

*'Nawr yn y gwyll, o'u hanghysbel gelloedd,*
*Daw i foli hen fynachod filoedd;*
*Daw abadau y bydoedd — hyn ar frys*
*I ganu yn nwyfus gân y nefoedd.*

*Diflanna'n y llan pob ysbryd anwar;*
*Y weddi wiw a werchyd y ddaear*
*Nes daw gwên ddistaw gynnar — haul i'r byd:-*
*Glas wawr a'i hud i eglwys yr adar.*

*Ffown ninnau o bwysau'r byd,*
*I'r oedfa rhag chwerw adfyd!*
*Amddifad yw'r ffoadur*
*O ferw gwae ac ofer gur*
*Y byd trwm ac enbyd draw:*
*Astud pob dim a distaw*
*Yn y wig gyntefig wâr:-*
*Llonydd yw llan y ddaear.*

*A thi gei brofi o'r rhin bêr ryfedd,*
*Anadl y Duwdod yn odlau 'i dudwedd,*
*A'i foli yng ngorfoledd — ei gymun*
*A natur yn un mewn tirion annedd.*

*Wele, foliant a'i nwyf yn y llwyfen,*
*A diwair rin y deri a'r onnen,*
*Plygu mae pob helygen — a weli?*
*Yno'n addoli mae pob un ddeilen!*

*Ac wele yno yng ngharegl enaid*
*Hen win nwyfus a chryf ein hynafiaid;*
*Afalladen wiwlan gannaid — gyntefig*
*Yn hudo orig yw'r lleuad euraid.*

*Tra nofiem tua'r nefoedd*
*Daeth nwyfus, foliannus floedd;*
*Y stŵr sydd mewn distawrwydd,*
*Hwn roes ei rin eirias rwydd*
*Rhoes hedd mewn ias o weddi*
*A rhinwedd mewn hedd i ni.*
*Y byd i gyd yn bader,*
*Hen dôn Sanct o dan y sêr.*
*Llanwyd eglwys y llwyni*
*Â phêr siant — cyffur o si.*

*Yno, yn llan y llannau,*
*Â natur — gyffur yn gwau*
*Ei chocàin ardderchog hi*
*A'i hether drwy fy ngwythi;*
*Arogl darth;*
*rhyw wagle dwys*
*Aneglur ddaeth i'r eglwys*
*Rhyw gyfrin rin a rannwyd*
*O gael naws a dirgel nwyd.*
*Am eiliad, bwriad y byd,*
*Oedd yno, am rydd ennyd*
*O fawl syn, y ddwyfol sêl,*
*A Duw mewn coedwig dawel.*

*Yn sydyn, megis ehedydd — a gwyd*
*O'r gwair, O'm hymenydd*
*Gwir ias y wig a'r rhosydd*
*A'i thân rhwydd a aeth yn rhydd.*

*Acen driw caniad yr eos — y sŵn*
*A swynodd y cyfnos*
*A gilia nawr i gôl nos,*
*A'i harial nid yw'n aros.*

*Yr adar wedi'r arial — ehedodd,*
*Y goedwig sydd anial.*
*Daw rhyw ias oeraidd risial,*
*A rhed pob creadur i'w wâl.*

*A ŵyr edn mwyn y llwyni — am y naws*
*Am nwyd yn dy wythi?*
*A yw pryfyn yn profi*
*Iasau tân fel cefaist ti?*

*Ninnau yn nyddiau annwfn*
*Awn i'r byw at y Duw dwfn,*
*Yr anian bêr yn ein bod*
*Yn ddedwydd, dynol Dduwdod*
*Oesau aur yn ceisio cael*
*Y nwyf nad oes mo'i afael.*
*Amau ydyw dyddiau dyn*
*Amwyster sy'n ymestyn*
*O hyd ond mae eiliadau*
*Pan fo'r byd i gyd yn gwau*
*Yn deg mewn gweledigaeth*
*Yn gain, yn lle bod yn gaeth;*
*Ysbeidiau diasbedain*
*Mewn bwrdwm di-sŵn, di-sain;*
*Eiliad o hud, pan welwn,*
*Yng ngolud yr ennyd, hwn:-*
*Cenhedlwr cân a'i hodlau,*
*Y Pur Hoen nad yw'n parhau.*

EMYR LEWIS,
Llysfaen, Caerdydd.

## *BRO MORGANNWG*

*Mae'r gwyll yng nghoed Sain Ffagan*
*A'r sêr uwchben Llancarfan,*
*Ond harddach fyth ar noson oer*
*Yw'r lloer uwch Aberddawan.*

*Fe welais frain yn fintai*
*Wrth fynd drwy'r Rhŵs ar siwrnai,*
*A gwelais betris bach yn haid*
*Yn Llansanffraid-ar-Elai.*

*Mae yma froydd addfwyn,*
*Gwenfo, Llanfaes, Tregolwyn,*
*Ond 'does dim treflan yn y byd*
*Mor hyfryd â Phendeulwyn.*

*Mae hedd yn Eglwys Brewys*
*I bawb sy'n drwm ofidus,*
*Ac i'r holl rai sy'n teimlo'n flin*
*Mae rhin yn Ninas Powys.*

*O Saint y Brid yn gynnar*
*Aeth llwynog dros y dalar,*
*Fe'i daliwyd gan y cŵn a'u gŵyr*
*Rhwng Radur a Rhydlafar.*

*Mi af ymhell o'm hendre*
*I lawer tre a p'entre,*
*Ond dof yn ôl o ben-draw'r byd*
*I hud Llanilltud Faerdre.*

*Pan fydd yn dywydd garw*
*A'r melys yn troi'n chwerw,*
*Mae capel lle caf win i'r co', —*
*Bethesda'r Fro yw hwnnw.*

*Ar fryniau ger Llanharan*
*Mae'r grugiar fach yn hedfan,*
*Mae'r ffesant lliwgar yn Llandw*
*A'r gwcw yn Llanfleiddan.*

*Rol cychwyn yn y Cantwn*
*A theithio drwy Dresimwn,*
*Caf gyrraedd y gweirgloddiau bras*
*A solas yn y Silstwn.*

*Y Wig, Pen-marc, Tregatwg,*
*Llandochau a Llandudwg,*
*Mae rhiniol swyn i mi bob tro*
*Yn enwau bro Morgannwg.*

W. RHYS NICHOLAS

# Colofn yr Ysgolion Meithrin

A minnau'n teimlo braidd yn fflat ac yn methu meddwl am ddim calonogol i'w gynnwys yn y golofn hon y mis yma, fe ddaeth chwa o awel iach i'm llonni. Y mae rhyw gyfaill di-enw wedi rhoi dau can punt o rodd i'w rannu rhwng dau gylch Meithrin yng Nghaerdydd. Dymuniad y cyfaill yw rhoi can punt i'r Cylch diweddara, sef Cylch y Sblot, a chan punt i'r cylch newydd nesaf i'w agor yn y Ddinas. Dymunaf drwy'r golofn hon fynegi fy niolch personol a diolch y Mudiad i'r cyfaill haelionus yma.

Digon dyrys yw hi arnai'i yn ceisio cael cylchoedd newydd a dim llawer o oleuni i'w gael. Ond fel byddai fy nhad yn dweud, "ma rwbath siwr o ddwad o rwla" ac fe ddaeth y llong fach hon i mewn! Dyna hwb i wneud i rywun ddal ati i holi a chynnull a pherswadio.

Ble bydd y Cylch nesa? Niwlog iawn yw dyfodol *Llanrhymni. Y Tyllgoed* — mae angen ysgafnhau a gostwng rhifau Llandaf a Llanfihangel ar Elai, ac rwyf yn mynd drwy'r Tyllgoed efo crib mân i chwilio am adeilad addas ond heb lwc eto. *Yr Eglwys Newydd?* Dim ond dechrau gwneud ymholiadau yr wyf yn yr ardal honno. Tybed a fydd yr abwyd o gan punt i'r Cylch newydd nesa yn ysgogi rhywun i ddatrys problem adeiladau addas i ni?

Digwyddiad bychan calonogol arall y dydd o'r blaen oedd cael cais am addysg feithrin Gymraeg i'w phlant gan fam ifanc o Gymraes o ardal Riverside. Pe llwyddwn i gael tri neu bedwar plentyn arall yn gnewyllyn, fe all mai Cylch Glan yr Afon fydd y nesa. Buaswn ar ben fy nigon pe gallwn gyhoeddi cyn diwedd yr haf bod cylch i'w agor fis Medi.

Ochor yn ochor â phroblemau yr agwedd "ddatblygu" o'm swydd, mae 'na fwrlwm o weithgarwch. Carwn ddiolch i bawb gyfrannodd at lwyddiant "Wedi'r Oedfa". Mae 'na nifer o weithgareddau y mis hwn hefyd. Bydd **Mehefin** 12fed yn ddiwrnod prysur i gefnogwyr y Mudiad — ffair flynyddol Cylch Rhiwbeina yn y pnawn a *Miri Mehefin* gan Gylch Llysfaen yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanedeyrn gyda'r nos. Ar y 15fed, mae cylchoedd Y Barri yn cynnal Sioe Ffasiynau yn y Neuadd Goffa. Mae gan Gylch y Sblot Ffair Sborion fore'r 12fed ac maent hefyd yn trefnu "Knit-In" — sef noddi'r mamau i wau am y gorau. Be gawn ni yn Gymraeg am "Knit-In" dwedwch?

I gloi'r llith yma, carwn gyfeirio at ddigwyddiad hapus iawn y mis diwetha — fe agorwyd Cylch Mam a'i Phlentyn yn Heol y Crwys lle y gall mamau a'u plant gyfarfod am sgwrs a phaned, a'i plant ddefnyddio offer y Cylch Meithrin i chwarae. Bydd y Cylch yma'n cyfarfod am 2.30 bob pnawn Mawrth. Os oes gan rywrai ohonoch ddiddordeb, cysylltwch ag Eleri Jones, Ffôn: 390872.

Tybed a oes mamau eraill â diddordeb mewn sefydlu rhywbeth tebyg mewn ardal arall, a chyfarfod yn adeilad y Cylch Meithrin agosa? Pwrpas Cylch fel hwn yw rhoi cyfle i famau ifainc gymdeithasu yn Gymraeg a'i gilydd, ac i'r plant ddysgu cymysgu cyn mynd i Gylch Meithrin. Cymraeg yw iaith y sgwrs, a chan dderbyn na fyddai newid ar yr iaith, byddai'n gyfle da i famau sy'n dysgu Cymraeg i gael siawns i ymarfer a chyfarwyddo â'r iaith.

Tybed sut chwa o wynt ddaw ar ein traws y mis nesa 'ma? Gobeithio y bydd yn garedig ac y gallwn symud ymlaen yn ein gobeithion.

SHÂN EMLYN

# colofn sbectol SIAN *

### BUWCH

Yn ôl siaradwr o'r Bwrdd Marchnata Llaeth, y frenhines yw un o brif gynhyrchwyr llaeth y Bwrdd. Yn groes i'r dadleuon yn ddiweddar, mae'n edrych fel petai'r "pwrs brenhinol" yn iach iawn. 'Sgwn i os oes raid i'r cwîn dalu teth incwm ar ei heiddo?

### MOCHYN

Dyma'r geiriau a welir ar gefn record newydd "Pryderi and his Pigs" — "Recorded... at the Sherman Theatre of University College, Cardiff/ Theatr Sherman Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Recorded on behalf of the Welsh Arts Council." Da iawn Sherman ond rwy'n pryderi am y Welsh Arts Cownsil 'na.

### DAFAD

Rhaid i mi anghytuno â dehongliad Clive Betts o'r rheswm pam y cafodd "Persi Rygarug" well ymateb na "Byw yn y Wlad" yng Nghaerdydd (*Western Mail*, Mai 22) "But then," meddai Clive, "Cardiff has more experience of loose women than of sheep roaming in Queen Street."

Betia'i fod gwreiddiau y rhan helaeth o Gymry Cymraeg Caerdydd, a'r mwyafrif o gynulleidfa'r Arena y noson honno, wedi eu mwydo mewn baw defaid. Efallai nad oedd y gynulleidfa yn meddwl llawer o'r cynhyrchiad ac mai dyna oedd y rheswm am y derbyniad "stiff". Yn wir, un person a welais i yn chwerthin ei donsyls allan, ac roedd o'n aelod o Gwmni Theatr Cymru!

### HOMO SAPIENS neu GAI'R AMSER?

Dyn: Esgusodwch fi, faint o'r gloch yw hi?

Alun Guy: Wel, mae hi bron yn X munud wedi VIII. (Cyfieithiad o'r Lladin.)

### LLEWOD

Fe fydd y pedwar llew tew (sy'n ddarllenwyr tra cyson o'r *Dinesydd*) yn chwerthin eu pennau i ffwrdd os na fydd Caerdydd yn ennill cystadleuaeth yn Steddfod Porthaethwy, ac fe fydd wynebau trefnwyr "Rhaglen amrywiol yn cynnwys rhai o fuddugwyr Porthaethwy, Mehefin 26ain" (hysbysebwyd hyn gryn fis cyn y Steddfod) yn goch iawn. Beth bynnag, erbyn y cyhoeddir hwn fe fydd pawb yn gwybod y canlyniadau — gwastraff amser oedd ei sgrifennu erbyn meddwl! Ta waeth, pob lwc, llongyfarchiadau neu hard lyc.




### TAFOD Y DDRAIG

Dyma sgor y gêm beldroed ryngwladol: Iwgoslafia 16 Cymru O. Wel, wedi cyfri'r nifer o linellau a ymddangosodd yn iaith y ddwy wlad yn y rhaglen swyddogol ydw i. Beth am yrru llythyr o gŵyn at yr Ysgrifennydd: Trevor Morris (Cymro Cymraeg, gyda llaw), Cymdeithas Beldroed Cymru, 3 Fairy Road, Wrecsam.

**D.S. Fe fydd rhifyn Gorffennaf/Awst o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Pob hwyl i'n holl ddarllenwyr ar wyliau haf ac ati — ond peidiwch ag anghofio danfon stwff i'r *Dinesydd* oherwydd bod bwlch mwy na'r arfer rhwng dau rifyn! Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn GORFFENNAF 12fed fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Golygydd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.**

# TUDALEN Y DYSGWYR

*O'r diwedd rydw i wedi ysgrifennu rhywbeth yn nhudalen y dysgwyr sydd wedi denu ymateb oddiwrth ddarllenydd!! Cyfeiriais at rai rhesymau pam mae dysgwyr yn peidio ymuno â dosbarthiadau ail a thrydedd blwyddyn, a dywedais fod rhywun ym Mhenybont wedi dweud mai un rheswm oedd nad oedd diddordeb gan yr athro. Nid oedd y rheswm yma'n cyfeirio at unryw athro arbennig nac ychwaith at unryw ddosbarth arbennig ond rhoddwyd y rheswm yma i mi fel un o'r rhesymau posibl dros y ffaith fod llawer mwy o bobl yn mynychu'r dosbarthiadau i ddechreuwyr na dosbarthiadau diweddarach. Rwy'n siwr fod yna ddosbarth rhywle yng Nghymru lle mae yna athro heb lawer o ddiddordeb yn cymryd dosbarth! Fodd bynnag ga i ymddiheurio i athrawon ym Mhenybont am i mi ysgrifennu 'r peth yn y fath ffordd fel eu bod yn credu ei fod yn feirniadaeth arnyn nhw. Fel mater o ffaith byddaf yn meddwl yn aml pe bai'r sefyllfa gystal yn genedlaethol ag y mae pethau ym Mhenybont fe fyddai 'r pethau'n llawer goleuach.*

**Dewch i'r 'Steddfod**

*Dylai pob dysgwr wneud ymdrech i dreulio cyfnod yn yr Eisteddfod yn Aberteifi ym mis Awst. Mae'r pwyllgor wedi bod wrthi'n brysur iawn yn paratoi rhaglen amrywiol ar eich cyfer. Croeso a phaned o de ar y dydd Llun a pob math o weithgareddau diddorol arall. Bydd yna babell fendigedig i'r dysgwyr gwrdd ynddi eleni eto. Gwn y bydd yn babell hyfryd am ei bod wedi cael ei chynllunio gan ein pensaer dysgwyr 'Cên'-edlaethol sef Cen. Bydd yna gyfle yn Aberteifi hefyd i chi gael golwg ar lawer o lyfrau a defnyddiau newydd sydd ar gael erbyn hyn.*

**Llyfr Newydd**

*Llyfr diddorol iawn sydd newydd ei gyhoeddu gyda llaw yw ail lyfr 'Sefyllfa a Sgwrs' gan Cennard Davies. Os bydd gwerthiant y llyfr hwn gystal â'r gwerthiant i 'r llyfr 'Gweld Dweud a Gwneud' yna fe fydd Mr Davies yn hapus iawn rwy'n siwr.*

*ddigon o gyfle yn Aberteifi i chi weld athrawon profiadol yn rhoi gwersi arddangos ac rwy'n siwr y cawn ganu rhai o'n hoff ganeuon yn y babell yn ddyddiol.*

**Cerdd y Dysgwr**

*Diolch yn fawr iawn i 'r Bnr Alfred Wilson am ei gerdd hyfryd sy'n siwr o fod yn brofiad llawer o ddysgwyr. Rwy'n adnabod Alfred Wilson a dyw e ddim yn gywir pan mae'n dweud ei fod yn llofruddio'r iaith — mae e 'n gallu siarad yn ardderchog.*

*ddol i gael cadw cysylltiad â'r iaith. Mae'n siarad yn fendigedig nawr ond fe ddwedodd y dydd o'r blaen — 'Rydw i wedi anghofio llawer o Gymraeg achos does dim cyfle yn Nenmarc i siarad Cymraeg'. Cofiwch ddysgwyr os nac ydych yn ymarfer yr iaith fe fyddwch chithau'n cael yr un profiad. Brawddeg fawr Knud yw — 'Does dim gwlad yn y byd fel Cymru'. Fe ddylem ninnau sylweddoli hyn a chofio siarad yr iaith bob cyfle a gawn.*

## NEWYDDION

**Wlpan yn Aberteifi**

*Bydd Mr Brian James a minnau yn trefnu rhyw fath o 'Wlpan' foreol yn Aberteifi gyda hyfforddwyr profiadol yn cymryd grwpiau bach o 9.30 yn y bore tan amser cinio. Beth am ymuno ag un o'r grwpiau yma? Fe fydd yna*

**Y Cymro o Ddenmarc**

*Cefais gwmni ein hannwyl ffrind o Ddenmarc am ychydig ddiwrnodau yn ddiweddar. Ydych chi'n cofio Knud Larsen sy' wedi syrthio mewn cariad â'r iaith Gymraeg a Chymru ac sy'n dod drosodd yn flyny-*

## CYRSIAU'R HAF

* Aberystwyth, Gorffennaf 12-24. Manylion oddi wrth Y Gyfadran Addysg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.
* Coleg Iwerydd, Sain Dunawd (St Donat's) Gorffennaf 16-23. Manylion oddi wrth Yr Uned Iaith, Trefforest.
* Plas Gregynog, Powys, Gorffennaf 18-22. Manylion oddi wrth Y Warden, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd.
* Coleg Harlech, ddiwedd mis Gorffennaf. Manylion oddi wrth Silyn Hughes, Coleg Harlech.
* Coleg y Brifysgol, Bangor — Gorffennaf. Manylion oddi wrth John Ll. Williams, Adran Allanol, Coleg y Brifysgol, Bangor.
* Ysgol Haf Y Barri, Awst 9-20. Manylion oddi wrth John Lloyd, Swyddfa Addysg Bellach, Sunnyside, Penybont ar Ogwr.


**Gwobr am Limrig**

*Cofiwch, fe fyddwn i neu'r golygydd yn falch iawn o gael llythyr oddi wrthych yn son am rywbeth i wneud â dysgu Cymraeg i oedolion; neu beth am ysgrifennu cerdd neu orffen y limrig yma! Fe fydd yna bunt o wobr fi'r llinell orau:*

*Roedd Mari yn hoff iawn o'r teli*
*A Wil oedd yn caru ei wely*
*'Rhosai Mari i'r 'Queen'*
*Tra roedd Wil wrtho'i hun*

*Anfonwch eich llinellau at y golygydd. Os bydd yn weddus, cyhoeddir y llinell fuddugol yn y rhifyn nesaf.*

JOHN ALBERT







**PRIODAS CHRIS A CHRIS**

Yn ddiweddar, priodwyd Chris Coles, (Llanrhymni a Phontcanna) a Christine Thomas o Dremorfa yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Caerdydd. Ar ôl iddynt feistroli'r iaith Gymraeg wedi dyddiau ysgol, drwy ddosbarthiadau'r Aelwyd ac ati, maent ill dau bellach yn weithgar iawn ym mywyd Cymraeg Caerdydd. Mae Christine yn gweithio i'r Cydbwyllgor Addysg a Chris yn swyddog gweinyddol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd ac y maent wedi ymgartrefu yn Heol Fairleigh, Pontcanna. Dymuniadau gorau a phob bendith iddynt.

# Llyffantod Rhydfelen

Nos Iau a Nos Wener, Mai 13 ac 14, perfformiwyd y ddrama *Llyffantod* gan gwmni Ysgol Gyfun Rhydfelen o flaen dwy gynulleidfa lawn a gwerthfawrogol. Dyma ddrama olaf ond un Huw Lloyd Edwards ('welodd y *Lefiathan* ddim golau dydd eto) cyn 'i farw ifanc y llynedd. Mae'n ddrama anodd ei llwyfannu, wedi'i seilio fel y mae ar gomedi gynnar Aristoffanes, mor wahanol 'i fframwaith a'i chynllun i'r dramâu yr arferwn ni â hwy. Gwyddai cynulleidfa Aristoffanes holl gefndir manwl y ddrama cyn dod i'r theatr; roedd'i chynnwys yn golygu mwy na stori iddyn nhw hefyd gan fod'i chymeriadau yn rheoli drostynt, yn dduwiau beunyddiol iddynt. A dyma ran o gamp y dramodydd yn y gwaith hwn, yw iddo ddefnyddio'r stori wreiddiol am dduwiau nad oes unrhyw arwyddocâd arbennig iddynt i ni heddiw, ond iddo lwyddo i chwistrellu i waed y rhain syniadau cyfoes sy'n gwbwl arwyddocaol i ni yng Nghymru yn ein cyfnod ni. Ac nid syniadau yn unig chwaith gan fod yr hen gymeriadau duwiaidd hyn yn gwisgo cig a gwaed y medrwn gredu ynddynt, y medrwn chwerthin am 'u pennau, gydymdeimlo â hwy ac wfftio wrth eu hurtrwydd.

Yn y stori mae Athen mewn argyfwng oherwydd rhyfel a dirywiad gwleidyddol, ac aeth gwir werthoedd yn angof. Ceisir trefnu i hen arweinwyr Athen ddychwelyd i adfer y gwerthoedd hyn. Dyw hi ddim yn dasg hawdd, a wyddom ni ddim a fu llwyddiant. Mae'r ddrama hon yn ddrych bwriadol o'r sefyllfa yng Nghymru heddiw, ac yn dangos o bosib mai yn ein dwylo ni y mae'r feddyginiaeth ac nad oes ddiben apelio at y gorffennol.

Mae'n ddrama lle y ceir cast mawr hefyd, ac mae hyn bob amser yn atyniad i gwmni ysgol, oherwydd rhydd gyfle i roi profiad i gynifer o blant. A phan ystyrir holl agweddau cynhyrchiad fel yr un gan Ysgol Rhydfelen, rhaid fod ymhell dros gant o blant wedi cymryd rhan. Temtasiwn felly, mae'n debyg oedd i'r ddau gynhyrchydd Pat Griffiths a John Owen fynd ati'i ddewis y ddrama hon am y cyfle hwn i wireddu un o ddibenion pwysig drama ysgol. Erbyn diwedd y perfformiad, a'r ail a welais i, roedd yn amlwg 'u bod wedi ystyried mwy na hyn: y gellid gyda chast ifanc anaeddfed fel hwn gyflwyno profiad theatrig byw ac ystyrlon; y gallai'r cwmni ifanc hwn, a chwmni rhan amser wrth gwrs, wneud iawn â holl ofynion trwm y ddrama. Dyna a ddigwyddodd, a gellir yn hawdd ddweud fod y cynhyrchiad yn gaboledig, yn grefftus; yn llawn o'r arwyddocad y dymunid'i gael o'r ddrama; difyr hefyd. Llwyddodd yr atodiadau, yn set ac yn oleuadau i helpu'r ddrama, heb dynnu sylw atynt 'u hunain.

Un o nodweddion amlwg a phwysig y ddrama, fel y ddrama Roegaidd, yw'r corws, a chawsom amrywiaeth lliwgar a dyfeisgar wrth gyflwyno'r Atheniaid, gosgordd Plwton yn Hades, a'r llyffantod byw a bygythgar — effeithiol er mor fyr'u hymddangosiad.

Roedd hyn oll yn gefndir i'r prif gymeriadau giprys a pherswadio, mwynhau a thristáu, ofni ac ymffrostio. Daliwyd ar yr awyrgylch briodol o'r dechrau un (ychydig cyn y dechrau a dweud y gwir) gan y diniweityn doniol Nicias (Marc Evans) a gosodwyd cyweirnod i'r holl chwarae a ddilynodd ganddo ef a'i wraig (Elisabeth Evans) a'i fam yng nghyfraith, Harmonia (Helen Davies) — talent yma! Gallem hefyd gredu yng nghymeriad y duw Dionysos (Huw Phillips), er y gallai hwn fod wedi ymestyn ychydig ar y cymeriad; ond gwaith anodd yw chwarae rhan duw heb droi'r cyfan yn ffars, a dyw Dionysos ddim yn un o'r cymeriadau hawsaf i'w chwarae. Ond roedd ei lonyddwch llwyd yn gyferbyniad da i gymeriad parablus Nicias. Wrth 'u dilyn i Annwn, i Hades, i chwilio am ateb i broblemau Athen, cawn gwrdd â Charon y cychwr (Geraint Jones) ac â Cherberws (Timothy Stephens), plismon yn y ddrama hon, a rhan a chwaraewyd yn grefftus ac argoeddiadol — roedd Cerberws a Nicias yn dangos cryn gelfyddyd aml gyda'r botel win. Llwyddodd Timothy Stephens i ysgafnhau ysbryd y ddrama fel y dylai gyda gormodedd o actio digon cynnil. Cawsom hefyd Blwton (Aled Thomas) a wyddai sut i ymateb i gymeriadau pwysicach, ac roedd y gwau a fu ar y symudiadau yn rhoi'r undod sy raid wrtho.

Cafwyd yn y cynhyrchiad hwn, berfformiad o safon broffesiynol — plant ysgol neu beidio, ac mae'n anodd, wrth edrych o gwmpas ar actio yn gyffredinol yng Nghymru, i ni feddwl am un cwmni a lwyddai i roi dehongliad mor gytbwys a gorffenedig. Efallai y gallwn ddisgwyl i sefydliadau fel ein hysgolion Cymraeg roi'r pwyslais sy'n ddyledus ar y diwylliant llafar, a bod yn yr achlysur hwn arwydd o'r diwedd fod Ysgol Rhydfelen yn gweld pwysigrwydd hyn o safbwynt defnydd llafar yr iaith yn yr ysgol ei hun a hefyd am ei fod yn gyfraniad cymdeithasol a chelfyddydol sylweddol.

GOHEBYDD ARBENNIG



*Elisabeth Evans, Marc Evans a Helen Davies mewn golygfa o ddrama Huw Lloyd Edwards, "Llyffantod".*

## Cwmni Drama Tredelerch

**Cynhelir cyfweliadau ar gyfer cynhyrchiad Cwmni Drama Tredelerch o'r miwsical newydd "Cusanna Fi Kate" (seiliedig ar y nofel *Kate Roberts* gan Laura Jones) am 6.00p.m. nos Iau, Mehefin 10fed yng Nghastell Caerdydd. Dylai pawb ofalu dod â'i Gerdyn Ecwiti gydag ef/hi; gwrthodir mynediant hebddo.**

**Menter newydd yw hon gan gwmni newydd sy'n cael ei redeg gan sindicet o bobl amlwg ym myd y theatr — un ohonynt newydd ddychwelyd o dymor llwyddiannus yn y West End — ond mwy am hwnnw eto. Cefnogwch eich theatr leol!**


## Mae ar Y DINESYDD angen cynrychiolydd hysbysebu rhan amser

i weithio am gomisiwn

* Gwaith diddorol i rywun sydd am weithio ar y ffôn o'i gartref/chartref
* Mae arddull gyfeillgar ar y ffôn yn bwysicach na phrofiad blaenorol
* Os oes gennych ddiddordeb, ffôniwch Caerdydd 396262 os gwelwch yn dda

# GWLAD Y GÂN A'R GWENITH

gan ein Gohebydd yn Rwsia

## MAIR OWEN



DYDD MERCHER, MAI 19eg. MOSCO

A dyma fi yma o'r diwedd! Wedi'r holl rwystredigaethau, y tâp coch, a'r peiriant biwrocrataidd a draflyncai fy holl drefniadau, dyma fi yn eistedd wrth fy nesg yng ngwesty'r Undeb Awduron yn syllu ar ddail gwyrdd, gwlyb Mosco drwy ddau drwch o wydr. Newydd dychwelyd o daith i Tallinn, prifddinas Estonia a Tbilisi, prifddinas Siorsia felly hwyrach mai dyna'r man gorau i mi gychwyn.

Bûm yn Nhallinn am dridiau, o ddydd Gwener Mai 7fed, gan gyrraedd yn ôl i Fosco fore Mawrth. Hedfan wedyn brynhawn Mawrth i Tbilisi gan gyrraedd yno tua chwech y bore wedyn, gan brofi'r gwrthgyferbyniad "du a gwyn" gorau y gellid gobeithio amdano — roedd yn wir anhygoel — o fewn un diwrnod fwy neu lai. Gadael Tallinn yn y gogledd, un o werinlywodraethau'r Baltic: bae clir, glas islaw a'r tywydd yn heulog ond â thipyn o frath yn yr awel. Mae'r iaith yno ychydig yn debyg i'r Ffinneg a'r bobl yn Sgandinafaidd yr olwg, yn dal â phryd golau a llygaid glas. Oherwydd ei safle arbennig, cafodd Estonia ei goresgyn gan Almaenwyr, Daniaid, Pwyliaid a Llychlynwyr yn eu tro cyn ei derbyn yn aelod o'r Undeb Sofietaidd ym 1940 wedi iddi wrthryfela a mwynhau cyfnod o hunan-lywodraeth (fwy neu lai) rhwng 1918 a 1940.

Yna, Tbilisi yn y de: croesi mynyddoedd y Caucasus i gyrraedd y rhan hon o'r Undeb Sofietaidd lle mae 103 o genhedloedd gwahanol yn byw. Lle poeth, gwyrddlesni a blodau llachar ar bob llaw ac er mai hil bryd golau oedd y trigolion cyntaf oll, erbyn heddiw maent i gyd yn dywyll dros ben, yn Roegaidd yr olwg gyda llygaid, gwallt a chroen tywyll. Maent yn bobl hardd dros ben, yn llawer mwy Asiatig wrth gwrs na phobl eraill yr wyf wedi cyfarfod â hwy yma: cymysgedd o Uzbecks, Ajherbaidjans ac yn y blaen. Mae dylanwadau'r aml goncwerwyr yn glir i'w gweld: Persiaid, Arabiaid, Twrciaid a Mongoliaid. Ym 1795 goresgynwyd y wlad gan Aga Mahommet Khan o Bersia ac ym 1801 dyma frenin olaf Siorsia, Sior XII yn gofyn i Rwsia am gymorth, a daeth Siorsia'n rhan o'r Ymherodraeth Rwsiaidd.

Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng Tallinn a Tbilisi yn syfrdanol, a cheir cyfatebiaeth iddi ymhob agwedd: oer a thwym, gogledd a de. Sgandinafia ac Asia, diwylliant a gwleidyddiaeth. Mae pobl Tallinn yn fwy ymenyddol eu hanianawd ac yn tueddu i fod yn dawedog: hyd y gwela'i, eu hagwedd hwy yw mai damwain anffodus yw'r ffaith eu bod yn rhan o'r Undeb Sofietaidd, a cheisiant beidio â meddwl gormod am y peth. Fodca yw'r ddiod genedlaethol yno ac y mae'r bwyd yn debyg iawn i'r hyn a geir ym Mosco. Mae'r Siorsiaid ar y llaw arall yn fwy twymgalon, agored a lliwgar; maent yn enwog am eu gwinllannoedd, eu brandi, eu ffrwythau a'u te. Hwyrach mai'r gymhariaeth Ewropeaidd fwyaf dilys fyddai'r Almaenwyr i'w cymharu â'r Eidalwyr (er nad doeth fyddai cymharu Estoniad ag Almaenwyr i'w wyneb chwaith). O safbwynt arall, roedd yr holl brofiad yn fy atgoffa o wrthgyferbyniad trawiadol a ddisgrifiodd cyfaill o ohebydd wrthyf unwaith wedi iddo dreulio bore mewn pwll glo, a mynd yn syth oddi yno i adeilad Julian Hodge! Ellwch chi ddim bod yn fwy "du a gwyn" na hynny!

Tallinn felly — hanner cylch o fae clir, glas, gyda fferm bysgota gydweithredol un ochr iddo; yma y cynhelir cystadleuthau hwylio'r Chwareuon Olympaidd pan fyddant yn dod i Rwsia. Eisoes gwelir ehangu sylweddol ar y lle ac ar y ffyrdd wrth baratoi ar gyfer 1980. Mae Estonia yn agos iawn i Ffinwlad ac fe ddaw'r Ffinniaid yn tyrru yma yn eu cannoedd gan ei bod hi'n llawer rhatach treulio penwythnos yn Nhallinn nag yn Ffinwlad. Ers talwm, roedd yna ddeddfau yn erbyn yfed yn Ffinwlad, ac y mae gwirodydd o bob math yn ddrud iawn yno heddiw. Mae'r Ffinniaid yn hoff iawn o fodca rhad Tallinn, a hyd yn oed yn gynnar yn y bore, mae'n bosib gweld llond y lle o Ffinniaid meddw!

Gwlad y gân a'r gwenith (mae arwyddlun Estonia yn cynnwys sprigyn o wenith) — ac yn Nhallinn mae maes awyragored eu cymanfa ganu anferth a gynhelir bob pum mlynedd. Bydd rhyw 700 o gorau'n cystadlu yno, gyda chymaint â saith neu wyth mil o aelodau ym mhob côr (10,000 weithiau yn y corau plant!). Bûm mor ffodus â chael cwrdd â chyfansoddwr eu cân genedlaethol, cyfansoddwr tra enwog sydd hefyd yn arwain côr meibion Estonia, yr unig gôr proffesiynol yn yr Undeb Sofietaidd. Dywedai fod ganddo ddiddordeb mawr mewn cyfnewid rhestri o ddarnau o gerddoriaeth, caneuon gwerin, tonau clasurol a rhai newydd gyda chorau meibion yng Nghymru.

Tu allan i Tallinn mae gan yr Estoniaid eu Sain Ffagan hwy. Mae'r patrwm yr union yr un fath ag a geir yn ein Hamgueddfa Werin ni; mae wedi ei gosod mewn coedwig a cheir yno gasgliad o hen fythynnod a thai, melinau gwynt a melinau dŵr. Gwirfoddolwyr gan mwyaf sy'n mynd ar hyd a lled Estonia yn achub adeiladau cyn iddynt fynd yn adfeilion ac yn anghof, gan nad oedd yr awdurdodau yn gefnogol iawn ar y cyfan i'r syniad o gadw 'creiriau'r gorffennol'. Fe gynhelir twmpathau a chystadleuthau dawnsio gwerin yma yn yr haf.

Mae gan yr Estoniaid lenyddiaeth gyfoethog dros ben; ychydig iawn ohoni sydd wedi ei gyfieithu i'r Rwsieg hyd yn hyn, ond mae yna gyfieithydd da iawn wrth y gwaith ar hyn o bryd, mae'n debyg. Perthyn yr iaith i'r grŵp Ffinno-Urgo o ieithoedd ac y mae damcaniaeth yn cael ei hystyried ar hyn o bryd sy'n maentumio fod tebygrwydd rhwng y grŵp hwn â'r ieithoedd Celtaidd. Cysylltiad pellennig arall eto felly rhwng gwlad y gân a'r gwenith a Chymru bell!

Ac o'r gwenith i'r grawnwin.

*(Fe barheir yr ysgrif hon yn y rhifyn nesaf o'r Dinesydd pan fydd Mair yn disgrifio ei harhosiad yn Tbilisi ac yn rhoi ei hargarffiadau o Siorsia a'r Siorsiaid.)*




### TREN LLUNDAIN

Dyddiad i nodi yn eich dyddiaduron yw dydd Sadwrn, Hydref 16eg pan fydd tren arbennig Pwyllgor Ysgolion Meithrin De Morgannwg yn mynd â llwyth arall o drigolion Caerdydd a'r cylch am drip i Lundain. Bydd y tocynnau'n rhyw £4 am docyn dwyffordd, hanner prys y tocyn arferol rhataf, a dim ond ceiniog neu ddwy'n fwy na'r hyn a godwyd llynedd. Bargen y flwyddyn felly ar Hydref 16eg — a'r elw i gyd i Ysgolion Meithrin De Morgannwg.

# Cipio Gwobr Dafydd Dafis!

**Yn ddiweddar aeth Côr Cerdd Dant Aelwyd Caerdydd dros y dŵr i gystadlu yng Ngŵyl Innisfallen, hanner ffordd rhwng Cymru ag Iwerddon. Enillwyd Gwobr Goffa Dafydd Dafis (£10 llai pris un wisgi) yn y gystadleuaeth am y côr gorau i ganu ar lawr (neu fwrdd) Bar y Shamroc.**

Wedi iddynt ennill y gystadleuaeth arbennig hon, clywodd aelod o'r côr (N. Jones) fod Gŵyl arall yn cael ei chynnal yr un pryd mewn tref o'r enw Cill Airne, ychydig ymhellach draw i'r gorllewin. Penderfynwyd llogi mini-cab i fynd â'r côr yno rhag llaw — rhag ofn. Yno yr aethpwyd, a swynwyd y beirniaid gan wacter ystyr llwyr wynebau'r côr — y fath ddisgyblaeth! Enillwyd, a chafwyd uffar o gwpan silfar mawr.

Ar ganol Stryd-fawr, cyfarfyddwyd â chriw o fois o Aberystwyth a ddaethai draw gyda'r un syniad. Enillodd y pêr ganiedyddion hyn, sef Côr-Cantre'r - Gwaelod-meinys-Gwilym-Tudur i roi iddynt eu teitl llawn, ar y gystadleuaeth i gorau meibion (cans meibion oeddynt).

Daeth diwedd y noson, a gwelwyd bod uffar o gwpan silfar, mwy na'r llall hyd yn oed, wedi ei gyflwyno i "The N. Jones Polyphonic Chorale" — sef ein ffrindiau bach o Gaerdydd — am maent hwy oedd y côr gorau yn yr Ŵyl!

Wel! gallwch ddychmygu'r hyw-di-dŵ a'r randi-bŵ y noson honno! Piti bod yn rhaid mynd i'r gwely am 10 (p.m.) er mwyn codi'n gynnar y bore wedyn i ddal y llong 'nôl i Gymru... ond wedi'r holl ecseitment,"Teg edrych tuag adref" ys dywed yr hen air. Can diolch i bawb a helpodd i wneud yr achlysur hwn yn un mor llwyddiannus — a llongyfarchiadau gwresog i N. Jones a'i hapus dyrfa.

SYDNEY THOMAS,
Radio Telefis Eireánn
(Cyf. o'r Wyddeleg)

## CALENDR MEHEFIN-GORFFENNAF

**MEHEFIN**

12 Cylch Meithrin Llysfaen MIRI MEHEFIN Canolfan Gymdeithasol Llanedeyrn. Bwyd a diod, dawns a chân gyda Hywel Gwynfryn a Taliesin 8.00p.m.

15 Cylchoedd Meithrin Y Barri SIOE FFASIYNAU Y Neuadd Goffa, Y Barri.

26 Urdd Gobaith Cymru DONIAU'R URDD Rhaglen amrywiol yn cynnwys rhai o fuddugwyr Porthaethwy. Theatr Reardon Smith 7.00p.m. Yr elw at Ganolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**GORFFENNAF**

6 CYNGERDD OFFERYNNOL Ysgol Gyfun Rhydfelen, Pontypridd.

31 Eisteddfod yr Urdd, Y Barri a'r Fro 1977 Cyngerdd gan GERDDORFA IEUENCTID CYMRU Y Neuadd Goffa, Y Barri.

# Enwau Personau yng Nghymru


**Achlysur diddorol iawn oedd Darlith Flynyddol Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd ar nos Wener, Mai 28ain pan oedd yr Arena, Theatr Sherman dan ei sang i glywed Dr Thomas Parry yn traethu ar Enwau Personau yng Nghymru.**

Awr o fwynhad pur, yn addysgiadol ac yn ddifyr am yn ail. Cawsom ein tywys o'r oesoedd cynharaf a'r enwau Cymraeg cyntaf oll ar hyd y canrifoedd at heddiw, gyda Dr Parry yn olrhain y modd y collodd enwau eu hystyr gwreiddiol a dod yn gyffredin i fwy nag un person, datblygiad cyfenwau yn yr oesoedd canol, i fyny at fathu enwau newydd yn ystod y ganrif hon.

Hyfryd iawn oedd yr adran lle soniai Dr Parry am y duedd yn ystod yr oesoedd canol i ddechrau gwahaniaethu rhwng pobl a oedd yn dwyn yr un enw bedydd drwy roi enwau ychwanegol iddynt; nid cyfenwau fel y byddwn ni'n eu deall hwy heddiw, ond enwau disgrifiadol gan amlaf, a rhai o'r rheini'n ddoniol iawn. Y Gyfraith a oedd yn gyfrifol am y duedd hon i raddau helaeth — rhaid oedd i'r llysoedd fod yn sicr eu bod yn cosbi'r troseddwr iawn — a gwelir y duedd hon i amlhau enwau yn glir iawn yng Nghofnodion Llys Tref Caernarfon yn y 14eg a'r 15fed Ganrif. Rhoddodd Dr Parry aml enghraifft i ni o'r enwau megis Iorwerth Hagr, Dafydd Lydan, Dafydd Hanner Wch, Iocyn Celwydd, Madog Grythor — a'r anffodusion Efa Ffrom, a Gwenllian Pen Hwch, druan!

Arfer arall yn yr oesoedd canol oedd mabwysiadu enw'r fro enedigol — felly, Tudur Aled, Tudur Penllyn ac ati. Wedi'r Ddeddf Uno, daeth cyfenwau yn bethau mwy cyffredin, o dan ddylanwadau Seisnigaidd, a dyma ddechrau oes y Jonesiaid, yr Evansiaid a'r Williamsiaid sydd mor nodweddiadol o Gymru bellach. Ond erbyn y 19eg Ganrif, roedd y rhod wedi troi unwaith eto pan ddaeth yn ffasiwn (ymhlith gweinidogion anghydffurdiol gan mwyaf) i fabwysiadu enw'r fro enedigol yn ychwanegol at yr enw cyffredin. Daethpwyd i adnabod llawer o'r gwŷr hyn wrth yr enwau hynny: William *Crwys* Williams, Howell *Elvet* Lewis (Elfed), John *Gwili* Jenkins ac yn y blaen.

Ac felly at yr 20fed Ganrif, gyda bathu llawer o enwau newydd, yn enwedig enwau merched: Eleri, Heulwen, Tegwen, Elonwy, Dilys, Haf, Glenys, Arianwen a llawer mwy. Ac wrth gwrs, uchafbwynt y ddarlith: hanes y brawd rhyfeddol Willie Morgrugyn Jones! Diolch o galon i Dr Parry am noson mor hyfryd - ac i'r Adran Allanol am sicrhau traddodi'r ddarlith flynyddol hon yn Gymraeg am y tro cyntaf eleni.




*Cerdd Gyfarch I'r Doctor McOllithe Ifans o Dredelerch*

*Doctor Ifans Ffos y Ffin**
*Gollodd allwedd drws ei fflat***
*Ffilis i ffwrdd yn Timbyctw*
*Dyna chi uffarn o hyw-di-dw!*

*Surwyn ap Gwên a'i cant*

Nodiadau
* *Cysylltiad teuluol*
***Odl annisgwyl ond hollol gywir (h.y., odl Wyddelig)*

## O'R RHOS I'R WAUN A'R COED

Mae Mrs Sarah Mitchell o Rosllanerchrogug wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar ac er mwyn gwella'n llwyr, mae wedi dod i lawr i Gaerdydd. Mae'n treulio rhan o'i hamser gydag un o'i merched, Mrs Beryl Hall, yng Nghyncoed a hefyd yn treulio amser gyda'i merch arall, Mrs Myfi Cosslett, yn Heol Sant Isan ar Y Waun.

Mae Mrs Mitchell wrth ei bodd, meddai hi, ond hyd y gall hi weld, does dim yn y brifddinas sy'n dod yn agos at "wyn Sabathau'r Rhos!" Fe fydd llawer sy'n cytuno â hi.


## HELEN A ROCKY

**Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Helen a Rocky a fydd yn priodi ddiwedd mis Gorffennaf. Merch o Dreorci yw Helen (Bennett) ond y mae wedi bod yn byw yng Nghaerdydd er gadael Coleg Aberystwyth (rai blynyddoedd yn ôl) ac y mae'n dysgu yn Nhonyrefail ar hyn o bryd. Daw Rocky (Peter Morgan i'r awdurdodau) o Sir Benfro yn wreiddiol ond y mae yntau'n athro yn y cylch ac yn chwareuwr rygbi o fri. Pob hwyl iddynt ill dau yn eu bywyd newydd.**

## CYFARFOD CYNTAF Y PWYLLGOR LLYWIO

Cyfarfu Pwyllgor Llywio Eisteddfod Genedlaethol Dinas Caerdydd 1978 yn Neuadd y Ddinas nos Fercher, Mai 26ain i drafod ethol Pwyllgor Gwaith ac Isbwyllgorau. Etholwyd Mr Emyr Currie Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith a Mr W.J. Jones yn Ysgrifennydd. Anerchwyd y cyfarfod gan Mr Idris Evans, Trefnydd Eisteddfodau'r De a bwysleisiodd yr angen am gydweithrediad clos rhwng y Pwyllgor Lleol a Chyngor yr Eisteddfod er sicrhau llwyddiant yr Ŵyl. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fehefin 18fed yng Ngholeg Cyncoed.

# NEWYDDION CWM RHYMNI



## ALUN CHARLES

Chwith gennym orfod cofnodi fod Alun Charles, un o golofnau'r bywyd Cymraeg yng Nghaerffili, wedi cael ei ddenu i'r Gogledd! Ar yr un pryd fe'u llongyfarchwn ar ei apwyntiad yn bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Caergybi. Bu cyfraniadau diffwdan Alun i lwyddiant achosion Cymraeg yr ardal yn amhrisadwy. Iddo ef, yn bennaf, y mae'r diolch am lwyddiant ysgybol yr Wlpan yng Nghaerffili a bu'n gefn i weithgareddau'r Aelwyd a'r Gymdeithas Gymraeg. Dymunwn yn dda iddo ac i Tina a Rhodri yn eu cynfein newydd.

## MUDIAD MEITHRIN

Llongyfarchiadau i Eleri Betts ar ei phenodiad yn Drefnydd Mudiad Ysgolion Meithrin ym Morgannwg Ganol. Mae Eleri ar hyn o bryd yn arwain yr Ysgol Feithrin yng Nghaerffili — un o'r rhai mwyaf yng Nghymru — ac fe fydd yn cychwyn ar ei gwaith newydd ym mis Medi. Mae'r penodiad pwysig hwn yn adlewyrchu twf yr ysgolion meithrin yn yr ardal hon a'r galw mawr am sefydlu ysgolion newydd i ymateb i'r alwad. A yw'r awdurdod addysg yn ddigon effro i'r sefyllfa ac yn ddigon parod i ddarparu cyfleusterau addysg gynradd Gymraeg i'r to newydd hwn? Mae adwaith rhieni ardal Bedwas a Machen i'r syniad o sefydlu uned Gymraeg o fewn yr ysgol leol yn dangos yn eglur na ddylem fod yn fodlon ar gyfaddawdu pan fo safon a naws addysg Gymraeg ein plant yn y fantol.

## PORTHAETHWY

Mae'r pedair Ysgol Gymraeg yn y cwm wedi bod wrthi'n brysur yn casglu arian i gludo'r plant sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhorthaethwy. Yn Senghennydd, Caerffili, Bargoed a Rhymni trefnwyd cyngherddau gan y plant ac ychwanegwyd at y cronfeydd gyda nosweithiau coffi a ffeiriau haf. Gyda'r fath gefnogaeth gan y rhieni mae'r cystadleuwyr yn haeddu pob lwc ar eu hymweliad â'r ynys bell.

## LLANUWCHLLYN

Bu un o ddosbarthiadau Ysgol Ifor Bach, Senghennydd, yn treulio wythnos yn ddiweddar ym mhentref Llanuwchllyn yn aros gyda'r pentrefwyr ac yn mynychu'r ysgol bentref. Un o'r uchafbwyntiau oedd eu hymweliad â Ffair Fawr y Bala. Dywedodd athro'r plant, Moi Parry, fod y profiad o aros am gyfnod mewn pentref cefn gwlad wedi bod yn brofiad bythgofiadwy i'r plant a'u bod yn gobeithio trefnu i blant Llanuwchllyn ymweld â Senghennydd yn ystod y flwyddyn i flasu peth o fywyd y cymoedd.

## FFAIR HAF

Daeth torf niferus i Ffair Haf Ysgol Feithrin Caerffili a gynhaliwyd yn Neuadd y Parc ar brynhawn heulog i wario arian er budd yr achos da hwn. Gwnaed elw o dros £200 at goffrau'r Ysgol, arian a fydd yn sylfaen dda gogyfer â gweithgareddau'r dyfodol.

## MERCHED Y WAWR

Daeth tymor cangen Caerffili o Ferched y Wawr i ben gyda sgwrs gan y Parchedig Haydn Thomas yn amlinellu amcanion blwyddyn yr henoed. Barn unfrydol y gynulleidfa oedd fod tymor cyntaf y gangen wedi llwyr gyfiawnhau ffydd yr arloeswyr yn y fenter ac y byddai pawb yn edrych ymlaen at drefnu rhaglen lawn dros fisoedd y gaeaf nesaf.

## GWILYM MORRIS

Dymunwn yn dda i'r Parchedig a Mrs Gwilym Morris wrth iddo ymddeol o'i weinidogaeth yn Eglwys Bethel, Caerffili. Mae Mr Morris yn gwella'n gyflym yn dilyn gwaeledd sydyn sydd wedi'i gadw o'r pulpud am rai misoedd ac mae'r ddau yn edrych ymlaen at symud i'w tŷ newydd yn Nant Ddu.

## GENI

Croeso i Huw Meredydd — newydd ddyfodiad a aned i Menna a Gareth Roberts, Caerffili, ar Fai 18 yn Ysbyty'r Glowyr.

# Llais gwâr o Lansteffan

Yn ddiweddar cyhoeddwyd cyfrol newydd o gerddi gan Raymond Garlick, y bardd o Lansteffan. Mae hon yn cwblhau'r gyfres o dair a ddechreuodd gyda *A Sense of Europe* a *A Sense of Time*, a'i henw yw *Incense*.

Fel yr awgrymir ar y siaced lwch, gwelir cryfau'r elfen o fawl a amlygid i rwy raddau yn *A Sense of Time* yn y gyfrol hon gyda llawer o'r cerddi'n canu clodydd lleodd a phersonau. Mae'n cynnwys un, sy'n cychwyn,

*"Unaccustomed as I am*
*to honour rather than damn*
*the judiciary......."* (tud 23)

sy'n talu teyrnged i Farnwr (o bawb!) - am iddo fod yn gyfiawn.

Mae cyfiawnder ac anghyfiawnder yn thema bwysig o hyd, ond meddalwyd rhywfaint ar y ffyrnigrwydd noeth a ennynwyd yn y bardd gan y camdrin a fu ar aelodau o Gymdeithas yr Iaith mewn llys ac ar brotest, ac a fynegwyd cystal yn *A Sense of Time*. Neu, dwysau yn hytrach na meddalu; darllener y gerdd *Roll Call* sy'n cofnodi'r aberth a'r dioddefaint yn y frwydr am ryddid, o Israel i Gymru. Tristwch yn hytrach na dicter cyfiawn y cerddi cynarach yw goslef y gerdd hon: tristwch am y milwr ifanc a gollodd ei fywyd yn Israel ac am y cenedlaetholwr ifanc a gollodd ei ryddid yng Nghymru:

*"The brief day dies, I light my lights*
*for Amnon, fallen on the heights*
*of Golan and, in desert Wales,*
*for Terwyn thrown back to the goals.*
*For Noemi - my grief, my dear,*
*the night that falls on the dark year."* (tud 29)

Ymddengys thema barhaol Cymru ac Ewrop yn y gyfrol hon eto; mor nodweddiadol o'r bardd hwn yw'r gwawdio ysgafn a geir yn y gerdd *Fanfare For Europe*, a gyfansoddwyd ar adeg yr holl hylabalŵ yn Lloegr ynglŷn ag ymuno â'r Farchnad Gyffredin:


*"You won't hear much of a fanfare*
*here, then. It's an old affair -*
*Wales went in with Gaul, you see,*
*with Arthur a late entry.*
*A couple of milleniums*
*we've been in. Now the day comes*
*for you, and good luck to you,"* (tud 11)

Cyfrol gynnes felly, a chywreindeb yr iaith eto yn nodwedd mor amlwg ohoni. Diolch am gael gwrando mwy ar y llais tawel, gwaraidd hwn gyda'i fwrlwm o deimladau o dan reolaeth ysgafn-gadarn y gerdd.

*Incense* gan Raymond Garlick. Gwasg Gomer £1.00.

## NANS YN YMADAEL

Roedd yn syndod i'w llu cyfeillion glywed fod Miss Nans Jones, Trefnydd Cenedlaethol y merched i Blaid Cymru yn ymadael gyda hyn. Pawb yn gofyn, "Ydy hi'n wael?" a neb yn fodlon credu ei bod yn ddigon hen (os dyna'r gair!) i ymddeol o'i swydd bresennol. O adnabod Miss Nans Jones, does neb yn derbyn y bydd yn cymryd y gair "ymddeol" o ddifrif!! Clywodd y Dinesydd fod rhai o'i chyfeillion yn trefnu swper bychan anffurfiol iddi — y cyntaf o lawer, rwy'n siŵr.




## CIPIO'R WOBR

Enillwyd Gwobr D.E. Evans, a gyflwynwyd am y tro cyntaf eleni gan Adran Allanol Coleg y Brifysgol am draethawd Cymraeg ar Farddoniaeth T.H. Parry-Williams, gan ddysgwraig. Tipyn o galondid i'r rheini sy'n ymlafnio gyda'r iaith ar hyn o bryd. Rhoddodd y beirniad, Mrs Branwen Jarvis, ganmoliaeth uchel i waith arobryn Mrs Dorothy Wood, cymeriad adnabyddus yng Nghaerdydd bellach, ond o Sheffield yn wreiddiol.

Cyflwynwyd ei gwobr iddi gan Dr Thomas Parry yn ystod y swper a gynhaliwyd ar ôl y Ddarlith Flynyddol (gweler tud. 7). Mae Mrs Wood wedi cyhoeddi erthyglau yn y Genhinen ac yn ddiweddar, enillodd ail wobr yng Nghystadleuaeth Stori Fer y Dysgwyr a drefnwyd gan *Y Dinesydd* yn ddiweddar. Llongyfarchiadau gwresog iawn iddi.

**Oriel**

53 Heol Siarl Caerdydd
Teliffon: 0222 395548

POSTER NEWYDD

DAVID JONES/
CARA WALLIA DERELICTA
£1.00 yr un

Casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau a llawlyfrau H.M.S.O.

Llawlyfrau Adran yr Amgylchedd.

Nifer helaeth o lyfrau ar yr Ieithoedd Celtaidd.

# Dwy Arddangosfa

*Mae dwy arddangosfa dra gwahanol i'w gweld yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Gellir ystyried y ddwy yn arddangosfeydd "cenedlaethol" ar ryw ystyr: mae* Chinese Scroll Paintings *(Coleg y Brifysgol, Caerdydd, hyd ddiwedd mis Mehefin) yn honni ei bod yn cynrychioli arluniaeth ddiweddar y werin yn Tsieina, gan ddangos agweddau ar eu bywyd fel eu hadlewyrchir yng nghelfyddyd y werin bobl; mae'r arddangosfa arall, i ddathlu ugainmlwyddiant sefydlu Grŵp 56 Cymru yn cynnwys detholiad helaeth o waith arlunwyr a cherflunwyr Cymru dros yr ugain mlynedd diwethaf.*

*Dyna lle derfydd y tebygrwydd rhyngddynt. Er fy mawr syndod, a minnau'n disgwyl y gwrthwyneb, rhaid cyfaddef, roedd yr arddangosfa Gymreig ddengwaith yn fwy diddorol na'r un Tsieiniaidd. Nid gagendor diwylliannol neu fy anwybodaeth i fy hun oedd yn cyfangwbl gyfrifol am hynny chwaith, am wn i.*

*Ymddangosai'r rhan fwyaf o'r darluniau yn yr arddangosfa fechan hon fel rhywbeth hanner ffordd rhwng y lluniau 'na a werthir yn Boots a chardiau Nadolig Gordon Frazer. Hynny yw, roedd y darlunio yn ddigon crefftus a phrofiadol ar y naill law, ac yn gwbl slic a bas eu heffaith ar y llaw arall. Cynnyrch lein gynhyrchu mewn ffatri yn hytrach nag ôl brwsh gwerinwr yn ceisio ei fynegi ei hun mewn ffordd a allai fod hwyrach yn anghelfydd ond a fyddai'n ddiffuant o leiaf.*

*Roedd rhai lluniau wedi eu harwyddo gan ddau neu dri o arlunwyr, ffaith a arweiniai dyn i gredu fwy fyth yn y ddamcaniaeth mai rhyw fath o ymarferiad "painting by numbers" yw'r arddangosfa hon. Byddai casgliad o bosteri propaganda lliwgar o Tsieina wedi bod yn llawer mwy diddorol, yn fy marn i o leiaf, na'r arddangosfa anniffuant ac anniddorol hon. Arddangosfa i'w cholli ar bob cyfrif.*

*O gyffredinedd undonog torfol i unigolyddiaeth drawiadol Grŵp 56 Cymru. Yma, mae'r mynegiant yn gwbl bersonol ac annibynnol; yr unig ddolen gydiol rhwng y gweithiau hyn yw'r ffaith fod yr artistiaid oll yn perthyn i Grŵp 56 Cymru (neu wedi perthyn iddo ar un adeg), a chan mai grŵp yn ymwneud â chyflwr celfyddyd broffesiynol yng Nghymru yw'r grŵp hwn yn hytrach nag unrhyw "ysgol" arbennig, ni ddylid edrych am thema, arddull neu fynegiant arbennig i nodweddu'r arddangosfa hon.*

*Mae ymateb dyn, yn naturiol felly, yn amrywio o artist i artist: casáu rhai pethau, ffoli ar bethau eraill; rhai pethau'n annealladwy a dibwrpas, i'm tyb i, ac felly'n fy niflasu — eraill yn fy swyno er gwaetha'r ffaith eu bod yn gwbl dywyll i mi. Ond mae'r cyfanwaith yn ddiddorol tu hwnt, ac yn llawn gyfiawnhau treulio awr neu ddwy yn mwynhau'r darlun hwn a'r llall, ac yn ceisio deall a gwerthfawrogi eraill.*

*Wna'i ddim dechrau rhestru enwau a gweithiau a dynnodd fy sylw arbennig i — heblaw son am ddarlun Mervyn Baldwin, (arlunydd yr wyf yn hoff iawn o'i waith)* Swimming against the stream, *y llun mwyaf 'Tsieiniaidd' yr olwg i mi ei weld y prynhawn hwnnw! Mae'r arddangosfa sylweddol hon yn cynnwys gweithiau gan 35 o artistiaid ac y mae yn Oriel Gron yr Amgueddfa Genedlaethol hyd Orffennaf 4ydd.*

S.A.E.

# Cefn Gwlad, Ddoe a Heddiw

Dangosodd drama Idwal Jones, "Pobl yr Ymylon" ei bod wedi gwrthsefyll treigl y blynyddoedd pan gafodd ei chyflwyno gan Theatr yr Ymylon yn yr Arena ym mis Mai. Gallasai'r stori hon am drempyn sy'n ennill parchusrwydd am ddydd drwy bregethu yn y capel lleol (yn lle pregethwr go iawn sydd wedi troi'n drempyn) fod wedi ymddangos yn chwerthinllyd braidd mewn cynyrchiad llai credadwy, ond sicrhaodd actio gwych y cwmni fod y ddrama hon yn brofiad difyr a gafaelgar.

Rhan arbennig o anodd i'w chwarae yw'r hen sipsi sydd wedi encilio i mewn i'w byd ei hunan o boen a gwallgofrwydd, ond rhoddodd Beryl Williams y fath ddidwylledd ffyrnig i'r ddynes hon nes peri fod ei grwnan dibaid, â hithau wedi llwyr ymgolli ynddi hi'i hun, yn brofiad cwbl gredadwy a theimladwy dros ben. Tipyn o gamp!

Nid oedd yna adeg pan nad oedd portread Meredith Edwards o'r hen dramp, Malachai, yn llai na thosturiol, a daeth ag urddas mawr i olygfeydd olaf y ddrama, gyda chymorth celfydd gweddill y cwmni; o blith y rhain, roedd perfformiad didywll, tawel Terry Dyddgen Jones yn bleser i'w weld, ond hwyrach mai'r diacon bach (gan Martin Griffiths) a apeliodd fwyaf at y gynulleidfa, gyda'r wyneb anhygoel 'na!

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, daeth Cwmni Theatr Cymru â'r rifiw "Byw yn y Wlad" i'r Arena wythnos yn ddiweddarach. Dyfeisiwyd y sgript gan y cwmni ei hun, a'i olygu'n grefftus iawn gan W.S. Jones; fe sicrhawyd elfen o barhad yn y golygfeydd tra amrywiol gan bresenoldeb y Saer, wrthi'n adeiladu ei ferfa (a gwblhawyd erbyn diwedd y perfformiad) a chan y ffaith ganolog fod yr holl olygfeydd, mewn un ffordd neu'r llall, yn ymwneud â bywyd ym mhentref dychmygol Popty Bach. Amrywiai'r hiwmor o gomedi *slapstick* i ddychan go finiog, a rhoddwyd digon o gyfle i'r cwmni talentog hwn i arddangos ei ddoniau mewn amrywiaeth helaeth o rannau.

Yn wyneb actio mor fedrus, hwyrach mai annoeth fyddai dechrau canmol unigolion — ac eto, roedd Valmai Jones, fel twrist o Frymi Cymraeg ei hiaith yn berl o berfformiad — a bu bron i Gwyn Parry yntau dynnu'r lle i lawr gyda'i berfformiad fel dol *ventriloquist*. Cafwyd ymateb eithriadol o frwd oddi wrth y gynulleidfa drwy gydol yr amser.

Gwych o beth yw cael cyfle i weld perfformiadau o glasuron (prin) y theatr Gymraeg; ar y llaw arall, y mae'n llawn mor bwysig dod o hyd i ddarn o theatr broffesiynol Gymraeg sy'n mentro sylwadau ar fywyd yng Nghymru yn y 70au. Byddai'n ddiddorol bellach gweld cwmni'n ymgodymu â drama Gymraeg gyfoes yn ymdrin o ddifri â'r Gymru sydd ohoni ...ond cael gafael ar y fath ddrama, wrth gwrs!

Ms BLODYN

# Gweithdy Opera Coleg y Brifysgol

**Cyflwyno pedair opera o fewn chwe mis! Mae unrhyw grwp prifysgol a all wneud hyn yn haeddu cael curo'i gefn, a dweud y lleia. A phan fo un o'r operau hynny yn cael ei chyflwyno ar lwyfan am y tro cyntaf, opera gan un o brif gyfansoddwyr Cymru gyfoes, rhaid canmol y grwp ymhellach am fentro.**

Llongyfarchiadau gwresog i Weithdy Opera Coleg y Brifysgol Caerdydd. Dyma'r grŵp talentog a gyflawnodd y gamp. Yn ystod tymor y Nadolig cawsom "Amahl and the Night Visitors" ac yna, ddiwedd mis Ebrill, dair opera fer, yn cynnwys campwaith newydd Alun Hoddinott, "Murder, the Magician".

Agorwyd y noson gyda chyflwyniad o dameidyn bach blasus, "The Telephone", gan Menotti. Dibynna'r scena fach hon am ei llwyddiant a ddawn y soprano i swyno ei chynulleidfa, yn ogystal â'i chymar ar y llwyfan. Ac fe wnaed hyn gan Gillian Thomas — cyflawnodd ei gwaith gyda rhwyddineb a hyder canmoladwy. Gresyn i'r set gael ei gosod mor bell yn ôl ar y llwyfan — set ddymunol iawn, gyda llaw. Golygai hyn bod sgyrsiau Lucy ar y teliffon yn ei gwneud hi'n anodd iddi, ar brydiau, i ddod i'r afael, yn effeithiol, â'i chynulleidfa. Chwaraewyd rhan Ben yn fedrus gan Ian Anett.

Yr ail opera oedd "Der Jasager", alegori gan Brecht a Kurt Weill. Dewis derbyniol dros ben gan bod naws yr opera hon yn bur wahanol i ysgafnder Menotti. Dichon bod y gerddoriaeth yn rhy unffurf ac yn tueddu i droi yn ei hunfan fel 'tae ond gweddai i natur alegoriaidd y ddrama ac yr oedd y canu yn effeithiol, yn arbennig felly gan Terence Dickens, Ceris Deverill a Yolande Jones. Yn wir, cawsom ganu gorau'r noson gan Miss Jones — llais cynnes, cyfoethog, â "chorff" iddo. Cawn glywed rhagor am y ferch hon o Geredigion, reit siwr. Cafwyd cynhyrchiad gafaelgar, llawn dychymyg.

Uchafbwynt y noson oedd cyflwyniad opera newydd Hoddinott. Gwelsom hi ar deledu beth amser yn ôl ond dyma'r tro cyntaf iddi gael ei chyflwyno ar lwyfan ac er nad oedd yn bosib i ddim ddileu'r atgofion am berfformiad Geraint Evans fel Sesto, ar y teledíad, rhaid cydnabod i'r perfformwyr yn Theatr y Sherman wneud eu gwaith yn anrhydeddus. Wedi agoriad braidd yn ansicr cawsom ganu da gan Kelvin Thomas — Sesto y Consurwr. Cafwyd canu derbyniol iawn hefyd gan Maldwyn Davies — cynorthwywr Sesto. Ond seren y cynhyrchiad, yn ddigamsyniol, oedd Linda Coombes — gwraig Sesto. 'Roedd sglein arbennig ar ei chanu a'i hactio.

O safbwynt cyflwyno teimlwn bod rhai agweddau i'r ddrama yn fwy gafaelgar ar y llwyfan nag ar y set deledu, yn arbennig felly y defnydd arswydlon a wnaed o'r masg, pan ddaeth Sesto i glustfeinio ar y cariadon yn cynllunio ei farwolaeth, a'r newid yng nghlo y chwarae, gyda'r Consurwr yn mwynhau ei oruchafaiaeth yn ddianef. Ar y llaw arall, collwn y tyndra a grewyd ar y teledíad gyda'r torri'n ôl a blaen yn ystod golygfa'r hupnoteiddio.

Yn y theatr ymddangosai imi bod cerddoriaeth Hoddinott yn gweddu i'r dim i'r libretto — o naws pur wahanol i synhwyrusrwydd "The Beach of Falesa". Clywswn y gerddoriaeth eisoes ar y teledu ac, o wrando arni drachefn, cadarnhawyd yr argraff ar fy meddwl. Ar y cychwyn mae rhannau ohoni, yma ac acw, yn swnio tipyn yn ysgythrog — garw hyd yn oed — ond o gyfarwyddo â'r sgôr y mae'n ymffurfio'n rhwydd ddigon i unawdau, deuawdau a chorawdau, a'r cyfan yn dra chanadwy. Edrychaf ymlaen yn eiddgar am weld a chlywed yr opera eto.

Wrth gloi, rhaid canmol gwaith y cor yn "Der Jasager", a'r gerddorfa am chwarae mor ragorol drwy gydol y perfformiadau. Ac, yn arbennig, rhaid mynegi gwerthfawrogiad calonog o waith Cyfarwyddwr y Gweithdy Opera, sef Clifford Bunford. Roedd ei gyfraniad ef yn allweddol i lwyddiant y cyfan.

PHYLLIS KINNEY

# FFWLBART MAWR!

**Ymddangosodd y trydydd rhifyn o FFWLBART, comic Cymraeg plant Caerdydd a'r cylch ddiwedd mis Mai. Gwerthwyd nifer sylweddol o'r ail rifyn, ac mae mynd mawr ar y rhifyn newydd hwn eisoes. Gwerthir y comic, sydd bellach wedi tyfu i ddwywaith y maint gwreiddiol, drwy ysgolion y cylch yn bennaf, ond roedd copiau hefyd ar werth ar faes y Steddfod ym Mhorthaethwy. Gellir cael copiau hefyd o Siop y Triban, ORIEL neu Ganolfan yr Urdd, pris 4c.**


Cylch Meithrin Llysfaen
Canolfan Gymdeithasol, Llanedeyrn
Nos Sadwrn, Mehefin 12 am 8 o'r gloch
MIRI MEHEFIN
gyda
Hywel Gwynfryn
Taliesin
Bwyd a diod, dawns a chân £1.50
Tocynnau ar gael oddi'wrth y rhieni

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU
Sefydliad rhydd ac annibynnol ddeugain mlynedd ar y blaen i Ddatganoli
UCAC

Onid yw'ch ymresymu cenedlaethol yn gwbl glir sythwch y dryswch yn awr trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen isod.
Tanysgrifiad Aelodaeth am 1976 £10.00
Athrawon ar eu blwyddyn gyntaf o wasanaeth £5.00
At: Yr Ysgrifennydd Gweinyddol, UCAC,
11 Heol Gordon, Caerdydd, CF2 3AJ. (Tel: 24692).
Amgaeaf siec/archeb post, gwerth £......, tanysgrifiad am 1976.
Enw ........................................
Cyfeiriad preifat..............................
..............................................
Cyfeiriad Ysgol/Coleg..........................
Cyflogwr: .....................................

Y GWRTHWYNEBWR

JOHN OGWEN YN PORTREADU 'EMRYS AP IWAN'
Cyfle i ail weld y gyfres gofiadwy hon. Gwelir y rhaglen gyntaf 'Emrys ap Iwan', nos Fawrth Mehefin 29 am 10.30p.m.
HTV CYMRU WALES
O'R GANOLFAN DELEDU CAERDYDD

# DYDDIADUR DYN DWAD

## 2. Y CO'N Y CONWAY

**Dwi ddim yn deud de, 'New Ely' ydi'n local i a dydi o ddim yn bad o le, ond mae newid yn change yndi? Felly un nos Wener esh i chwilio am byb Cymraeg arall o'n i wedi clywad son amdano fo ochor arall i'r dre.**

Dwi wedi clywad lot o bobol yn cwyno am bysus Caerdydd, bod nhw'n hwyr a ballu de, ond iesu oedd bys No 7 yn mynd â fi yn handi uffernol o drws tŷ jest i ddrws ffrynt y pyb 'ma, y 'Conway' yn Llandaff. Mae'r bys yn stopio deud gwir tu allan i stiwdios HTV. Od meddwl yndi 'ma fanna chydig o ffordd lawr lôn ma nhw'n gneud y programes sydd ar ych TV chi? Dwi'n meddwl nesh i weld y boi sbectol 'na sydd ar 'Y Dydd' nos Wener, ond ella 'na drysu nesh i hefyd.

Mae'r 'Conway' 'n fwy posh na'r 'New Ely' medda'r hogia, felly wisgish i'n siwt a nhei i fynd lawr yna rhag i fi edrach yn sgryff. Esh i am saith i gael noson fawr i ddechra'r weekend yn iawn 'de, a mynd i fewn i'r bar ar y chwith lle deudodd yn mêts i wrtha i am fynd, ond arglwydd odd hi'n wag, a dim un wan jac yno. Meddwl wedyn, naturiol, bod fi'n lle rong.

"This the Welsh bar aye?" medda fi wrth y fodan tu nôl i'r bar.

"They seem to speak a lot of Welsh here," medda fodan. Swnio fatha Ianc i fi a ofynish i iddi.

"You from America aye?" me fi.

"Canada," medda hitha. Yn bar Cymraeg yn Caerdydd Dwi'n gofyn i chi. Byd yn fach, yndi?

"Peint o meild plis."

"Mild?"

"Peint o meild plis," me fi eto, meddwl bod hi ddim 'di dallt. Lot o bobol ddim yn dallt yn Susnag i yn fan hyn. Chesh i rioed draffath yn Cynarfon chwaith. Ond odd y fodan ddim yn gwbod be odd meild nag odd?

"Black beer," me fi.

"Brown?" medda hi.

"No, Meild."

Nath hi ofyn i'r hogia yn y bar arall.

"It's 'derk' you want skip," medda boi o trwadd.

"Meild aye?" medda fi eto'n ychal.

"No, it's 'derk' round here, sperk."

O Iesu, neith hi beint o lager. Twenti êt, myn uffar i! Talu am carpad ia?

Dwi wedi dallt wedyn, do, ma'r 'Brains Dark' yma odd gynnyn nhw. Stwff drwg ar diawl, dim byd debyg i 'M & B' a 'Ind Coope'. Ond ddim gyn waethed â'r S.A. 'na. 'Skull Attack' fydd yr hogia'n i alw fo. Blas fatha wermod ar hwnnw.

Eniwê, dyma fi'n gofyn i'r Canedian lle roedd yr hogia i gyd heno — meddwl fysa nhw yma a hitha'n weekend. Byth yn dechra llenwi cyn naw medda hi. Ella 'na dyna pam bod yr êl mor ddrud. Codi lot am bod nhw'n gwerthu gyn lleiad?

Ond tua wyth o'r gloch ddoth 'na filoedd o blant i fewn yn gneud sŵn diawledig. Mi godon nhw orinj jiwsus a haneri o lager an leim a ryw 'nialwch felly a chymryd y seti jest i gyd.

"Basdads bach Rhyfelen yn siarad Susnag," medda'r boi 'ma efo gwallt hir a locsun wrth yn ochor i wrth y bar.

"Y?" medda fi, heb dorri gair hefo'r boi cynt. "Ydi rhein yn medru Cymraeg, yndyn?"

"Ysgol Rhydfelen Pontypridd 'de was? Ysgol Gymraeg 'de? Ti ddim yn gwbod? Lle uffar ti 'di bod mêt?"

"Sud ddiawl ti'n disgwyl i fi wbod am blydi Pontypridd? Newydd ddwad lawr 'ma ydw i yli."

Odd gin i ddim llawar i ddeud wrth y boi blin 'ma, ac o'n i wedi blino sefyll eniwê, felly mi esh i chwilio am gadar.

"Os 'na rwbath yn ista fan hyn, del?"

Mi sbiodd y fodan fach yn wirion.

"Anybody's chair?"

"No."

" 'Dach chi'n siarad Cymraig yndach?"

"Odyn."

"Ysgol Rhydfelen ia?"

"Ie."

"Pam dach chi'n siarad Susnag efo'ch gilydd 'da?" Naethon nhw giglo a cochi.

"Y?" me fi, isho atab yn lle lol.

"Wel," medda un o'r diwadd, "ni'n siarad Cymraeg yn yr ysgol drwy'r dydd on 'dyn ni? Mae'n change cael siarad Saesneg gyda'r nos."

Mi orffennodd y sgwrs yn swta fela pan ddath 'na ŵr a gwraig heibio'n halio uffar o bwdl mawr hyll ar eu holau. Mi stopiodd y dyn yn stond o mlaen i.

"Hey! You Bobby Pierce?" medda'r boi wrtha i.

Sbio dros yn ysgwydd i weld odd na rywun arall yno, ond dodd 'na ddim. Ron i 'run ffunud â Bobby Pierce sy'n cadw garej yn Gabalfa medda fo.

"Mildred? I could 'ave sworn......eh?"

Tua naw, fel deudodd y fodan, dyma hi'n dechra llenwi tu hwnt i bob rheswm. Hogia smart, a fodins handi yn yfad petha bach ac yn siarad yn sidet ar ganol llawr. Rhydfelan yn dal i hawlio'r seti.

"Rydw i'n dysgu siarad..." medda rwbath yn fy nghlust chwith.

"Ym be?" me fi, ddim wedi ddallt o'n iawn.

"Ydych chi'n siarad Cymraeg?"

"Yndw, siwr Dduw." me fi. "Lle dach chi'n dwad?"

"Mae'n ddrwg gen i?"

"Un o fforcw dach chi?"

"Rydw i'n dysgu ers dwy wythnos dim ond."

"Fan hyn ti'n arfar yfad ta fyddi di'n mynd i'r Ely weithia?"

"Eto os gwelwch yn dda?"

A felna buodd hi. Ddoth 'na foi hefo pen moel a homar o locsun heibio a deud wrth y boi bod hi'n iawn iddo fo aros i siarad hefo fi. Gneud lles iddo fo siarad hefo 'Cymro naturiol'. Yr unig beth odd, fyswn inna ddim wedi meindio siarad efo hogia naturiol yn hun yn lle paldaruo efo ryw dw-lal fel hyn. Dwi o blaid yr hogia 'ma ddysgu Cymraeg ia, ond 'ma powb isho dipyn bach o hwyl dros weekend does?

"Ble rydych chi'n dysgu?" medda rwbath arall gan yn nal i a finna jest â chal gwarad o'r llall.

"Dwi ddim yn dysgu. Dwi wedi siarad Cymraeg 'rioed do," medda fi.

"Na, na, na. Ble rydych chi'n athro?"

"Gwerthu carpedi yn Howells ydw i, mêt."

Dwi ddim yn meddwl gesh i 'rioed noson fwy diflas. Neb o gwbl yno fysa chi'n alw'n 'hogia'. Esh i allan i'r awyr iach o'r rŵm heb ffenast a dal y bys ddeg yn ôl i'r 'New Ely' i gael peint neu ddau cyn iddyn nhw gau. Roedd yr hogia wrthi'n canu a chwarae cardia a gesh i groeso iawn a gêm neu ddwy cyn iddyn nhw gau.

"Lle ti 'di bod?"


"Yn y 'Conway'," medda fi.

"Hei hogia! Ma Gron wedi bod yn y 'Conway'!"

"Aaaaa! Gest ti hwyl Gron? Nest ti enjoio dy hun hefo'r crach?"

Jest cyn i mi adael y 'Conway' mi ddaeth y dyn hefo'r pwdl du heibio eilwaith a gofyn, "Hey skip! You sure you're not Bobby Pierce?"

GORONWY JONES





*Timothy Stephens a Marc Evans mewn golygfa o gynhyrchiad Ysgol Rhydfelen o ddrama Huw Lloyd Edwards, "Llyffantod"* *(gwel. tud. 5).*

# Pethau Cain

Ychydig cyn y Pasg eleni, agorwyd siop grefftau newydd yng Nghaerdydd mewn stryd fechan y tu ôl i dafarn yr *Half Way*, ger llaw Caeau Llandaf. Pa newyddion yw hynny, meddech chi, mae 'na lefydd tebyg yn agor yng Nghymru bron bob wythnos erbyn hyn. Ond mae *Pethau Cain*, menter ar y cyd rhwng Mair Haydn Jones ac Anne-Marie Petty, yn lle tra gwahanol i'r mwyafrif o'r "Welsh Craft Shops" bondigrybwyll sydd wedi lledaenu fel madarch twristaidd ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.


Yn y lle cyntaf, does dim lle i grefftwaith Cymry Hong Kong (na Chymry Llundain, o ran hynny) yn y siop hon: does dim byd ond cynnyrch Cymreig go iawn ar werth yno, fel y gellid disgwyl â Mair yn sylfeinydd cwmni *Miri Cymru* a sefydlwyd rai blynyddoedd yn ôl bellach i gefnogi crefftwyr yng Nghymru i gynhyrchu teganau Cymreig o'r radd flaenaf.

Y mater hwn o safon yw'r ail bwynt pwysig: ni werthir dim byd ond nwyddau o'r safon uchaf, yn ddeniadol eu golwg a chywrain eu gwneuthuriad. Mae hynny'n weddol amlwg i'w weld o'r tu allan i'r siop. Mae 'na droëll fendigedig, o waith cwmni Gwaith Llaw y Werin, Llanwrda yn llenwi un ffenestr bron, ac nid addurn mohoni er ei hardded: cynigir cit gwaith cyflawn sy'n cynnwys gwerthyd, hanner pwys o wlan a llyfr cyfarwyddiadau i fynd gyda hi. Addurn hardd i'r cartref - ie - ond hen ffordd newydd a chynhyrchiol o dreulio hirnos o aeaf hefyd!

I'r rhai hynny ohonoch y mae'n well gennych y cynnyrch gorffenedig na'r gwaith, mae 'na ddigon o ddewis y tu fewn i'r siop o garthenni, brethynnau, teis ac ati. Mae'r silffoedd yn dal dewis helaeth o nwyddau traddodiadol a modern, defnyddiol ac addurniadol, o lampau glowyr i ganhwyllau, clocsiau a gemau, cwpanau i yfed ohonynt, ffyn i bwyso arnynt, teganau, pypedau, llyfrau, recordiau a mil a mwy o bethau eraill — gyda'r un ddolen gyswllt rhyngddynt, sef mai dyma gynnyrch gorau Cymru.

Er bod y siop braidd yn anodd i ddod o hyd iddi (y cyfeiriad yw 1 Pontcanna Place, troi i'r chwith oddi ar Heol y Eglwys Gadeiriol wrth yr *Half Way*), roedd hi'n amlwg wrth y llif o bobl drwy'r siop pan oeddwn i yno fod y gair eisoes yn mynd o gwmpas. Pob hwyl i'r fenter newydd hon gan Gymry yng Nghymru er budd Cymry.


CADERNID GWYNEDD — BUDDSODDWCH YNG NGHYMRU



CYMDEITHAS TAI GWYNEDD

DANFONWCH HEDDIW AT —
DAFYDD IWAN
CYMDEITHAS TAI GWYNEDD
PENYGROES. Ffôn 730
CAERNARFON
GWYNEDD

Dymunaf fuddsoddi £ yng Nghymdeithas Tai Gwynedd
(am o leiaf 3 blynedd, gyda rhybudd o 6 mis cyn ei godi allan)
* Ar log o 9% / * yn ddi-log (*dilewch un)
Amgaeaf siec am y swm uchod

ARWYDDWYD ______ DYDDIAD ______
CYFEIRIAD ______


## MYND I'R WLADFA

**Bydd Rhys Daniel, sydd ar hyn o bryd yn athro celfyddyd yn Ysgol Rhydfelen, yn ymadael â Chymru ym mis Awst i dreulio blwyddyn ym Mhatagonia. Bwriad Rhys yw gwneud astudiaeth weledol o'r Wladfa Gymreig yno drwy gyfrwng darluniau, peintiadau ac ati. Bydd yn aros gyda theulu o Gymry yn ardal Trelew ac yn gweithio ar eu fferm hwy yno. Pob hwyl iddo yn yr antur hon — a gobeithio y cawn arddangosfa doreithiog ganddo pan ddelo i Gymru'n ôl.**


GORFFWYSWCH — YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. Crookes)

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU : FFÔN CAERDYDD 31174

(Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain)

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.


# C.C.C.

Na, nid Carmarthenshire County Council
— na Caernarfonshire County Council
— na Cyngor Celfyddydau Cymru
OND — CYMDEITHAS CATHOD CAERDYDD.

PWY YDYM?

Pobl gyfrifol llawn hwyl sydd wedi dod i benderfyniad fod aelodau blewog o'n cymdeithas yn llawer mwy o sbri ma'r aelodau diflewog (noeth).

Gallwch ddweud ar ôl darllen hyn, pawb â'i ffordd, neu whatever turns you on. OND, os hoffech ymuno â'r gymdeithas freintiedig hon, er mwyn profi pleserau perthyn i'r hil flewog, ysgrifennwch atom nawr ac ymunwch â ni i gael sbort a sbri. Sticeri ceir (pris 12c) ar gael oddi wrth Dai Cwrcyn Thomas, 20 Heol Richmond, Caerdydd.

O.N. Fe drefnir Noson Lawen enfawr yn Aberteifi.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd, Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*